# Caban Y Faenol CYF

## Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles

### Nod

Bydd Caban Y Faenol yn gwneud popeth o fewn ei allu, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff, y plant yn ei ofal, ymgeiswyr/myfyrwyr ar brofiad gwaith, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr.

### Hawliau'r Plentyn

Mae sicrhau iechyd, diogelwch a lles y plant yn rhan o sicrhau bod Caban y Faenol yn parchu hawliau'r plentyn, fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol:

Erthygl 6: **Mae gan bob plentyn yr hawl i fyw. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.**

Erthygl 27: **Mae gan blant hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol.**

### Cod Ymarfer

Bydd Caban Y Faenol yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol.

Mae'r Rheolwr yn gyfrifol am sicrhau bod y Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles yn cael ei weithredu. Bydd pob aelod o staff yn ymwybodol ohono ac yn cydymffurfio'n llawn â'i holl ofynion.

Bydd y Rheolwr yn darparu cyfleoedd i bob aelod o staff fynychu cyrsiau iechyd a diogelwch yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y staff yn gyfrifol am weithredu'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Lles o ddydd i ddydd.

Bydd Caban y Faenol yn:

- sicrhau bod yr amgylchedd, y tu mewn a'r tu allan i'r lleoliad, yn ddiogel i'r staff a'r plant.
- cynnal asesiad risg rheolaidd o'r adeilad a'i amgylchedd a chadw cofnod ysgrifenedig ohono.
- sicrhau bod Llyfr Damweiniau a Digwyddiadau yn y lleoliad a sicrhau bod y staff yn cofnodi pob damwain a digwyddiad.
- sicrhau y cedwir at ganllawiau RIDDOR
- sicrhau bod gan berson dynodedig yn y lleoliad gyfrifoldeb penodol am Gymorth Cyntaf, gan sicrhau bod o leiaf un oedolyn â thystysgrif Cymorth Cyntaf cyfredol

yn bresennol ym mhob sesiwn. Dylid dilyn canllawiau AGGCC ar gyfer cymarebau staffio pobl hyfforddedig, fel y nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol bob amser.

- sicrhau bod ffôn ar gael i'r lleoliadau ei ddefnyddio, neu drefnu bod ffôn symudol ar gael yn ystod y sesiynau.
- sicrhau bod pob aelod o staff yn mynychu cyrsiau Iechyd a Diogelwch rheolaidd.

**Diogelwch Tân**

Bydd Caban y Faenol yn cwrdd â safonau diogelwch tân sylfaenol yn unol â'r Gorchymyn Diogelwch Tân Diwygio Rheoleiddio (RRO 2005). Bydd y person sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn cynnal asesiad risgiau tân ac yn cynnal cynllun rheoli tân.

Yn unol â rheoliadau GDRh 2005, bydd Caban y Faenol yn sicrhau bod pawb sy'n gweithio ac yn ymweld â'r adeilad yn cael eu hamddiffyn rhag perygl tân. Er mwyn sicrhau hyn, byddwn yn:

- cynnal asesiad risg tân, ei gofnodi a'i ddiweddaru'n rheolaidd neu pan fydd unrhyw newid yn yr amgylchiadau.
- sicrhau bod y staff yn derbyn canllawiau manwl ar reoliadau diogelwch tân a’u bod yn eu gweithredu e.e. gadael yr adeilad yn achos tân.
- sicrhau bod nifer digonol o ddiffoddwyr tân priodol mewn mannau amlwg a chyfleus a’u bod wedi eu lleoli yn unol â chanllawiau’r Gwasanaeth Tân.
- sicrhau bod canllawiau clir a manwl ar sut i weithredu os bydd tân yn cael ei arddangos mewn man amlwg yn yr adeilad.
- sicrhau bod dril tân yn cael ei gynnal a'i gofnodi o leiaf unwaith bob tymor. Dylid penodi wardeniaid tân i fod yn gyfrifol am wagio'r adeilad mewn argyfwng.
- profi'r larymau tân yn wythnosol, gan gadw cofnod o bob prawf
- sicrhau bod y cyfarpar trydanol yn cael ei archwilio'n rheolaidd a bod cofnod yn cael ei gadw o'r archwiliadau

**Lles**

Bydd Caban y Faenol yn:

- sicrhau bod modd rheoli tymheredd yr ystafell fel nad yw'n disgyn o dan 16ºC ac nad yw'n codi i lefel sy'n anghyfforddus ac yn beryglus i les y plant.
- sicrhau bod digon o gysgod yn yr ardal chwarae awyr agored yn enwedig yn ystod misoedd yr haf. Sicrhau bod staff yn gweithredu'r **Polisi Diogelu rhag yr Haul.**

- sicrhau bod cofrestr lawn yn cael ei chadw wrth i bob plentyn unigol gyrraedd a gadael yr adeilad.
- sicrhau bod pob aelod o staff ac unrhyw ymwelwyr yn arwyddo wrth gyrraedd neu adael yr adeilad.
- sicrhau nad oes unrhyw staff nac ymwelydd yn ysmygu yn y lleoliad na'i amgylchedd ar unrhyw adeg. Sicrhau bod arwyddion Dim Ysmygu yn cael eu harddangos wrth y fynedfa a bod y **Polisi Di-fwg** yn cael ei weithredu gan y staff a'r holl ymwelwyr.
- cynnig pob cymorth i aelodau o staff sy'n ysmygu roi'r gorau i'r arferiad.
- sicrhau nad yw aelod o staff sy'n ysmygu yn dod i gysylltiad â'r plant tra bod ei ddillad neu ei anadl yn arogli mwg.
- sicrhau bod aelodau'r staff yn cael gwybodaeth am arferion da ar gyfer codi a chario pwysau a bod cyfleoedd iddynt fynychu hyfforddiant perthnasol yn rheolaidd.
- sicrhau bod gwybodaeth am Gyfraith Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael ei harddangos mewn man amlwg.
- sicrhau bod myfyrwyr ar leoliad gwaith a gwirfoddolwyr yn cael gwybodaeth am faterion iechyd a diogelwch yn ystod eu hymweliad cyntaf â'r lleoliad.
- sicrhau bod blwch Cymorth Cyntaf, gyda'r cynnwys angenrheidiol, yn cael ei ddarparu a'i gadw mewn man amlwg, a'i fod yn cael ei archwilio'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyflawn.
- sicrhau bod caniatâd ysgrifenedig rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid i roi unrhyw driniaeth feddygol frys ar gael i bob plentyn gan ddilyn canllawiau'r **Polisi Meddyginiaeth.**

**Iechyd a Hylendid Personol**

Bydd Caban y Faenol yn:

- sicrhau bod y plant yn dysgu am iechyd a hylendid personol fel rhan o'r cwricwlwm.
- sicrhau bod safon uchel o lanweithdra a hylendid yn cael ei gynnal yn y lleoliad, gan ofalu bod pob oedolyn yn dilyn y canllawiau ac yn gweithredu arfer da ar bob achlysur.
- sicrhau nad yw plentyn yn cael ei wrthod os yw'n dal i ddefnyddio cewynnau, ond ceisio gweithio gyda'r rhieni/gwarcheidwaid i hyfforddi'r plentyn i ddefnyddio'r toiled bob amser (Gweler **Polisi Newid Clytiau**)
- annog rhieni/gwarcheidwaid i ddefnyddio cewynnau y gellir eu hailddefnyddio, ond os yw hyn yn anymarferol, dylid annog rhieni i ddefnyddio cewynnau ecogyfeillgar. Bydd disgwyl i'r rhieni ddarparu'r cewynnau ac unrhyw ddeunyddiau ychwanegol sydd eu hangen. Pan fydd plentyn yn defnyddio

cewynnau tyweli bydd y Cylch Meithrin yn gweithredu trefn ar gyfer storio cewyn budr hyd nes y bydd y rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid yn casglu'r plentyn.

**Diogelwch plant ar ymweliadau**

Cyfrifoldeb y **Rheolwr** a'r staff yw sicrhau diogelwch y plant ar ymweliadau tu allan i Caban y Faenol.

Bydd Caban y Faenol yn:

- dilyn canllawiau'r **Polisi Cludo Plant.**
- dilyn canllawiau'r **Polisi Cadw Plant o fewn y Safle / Plentyn Coll.**
- dilyn canllawiau'r **Polisi Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol**.

**Gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn plant**

Bydd Caban y Faenol yn:

- cadw copi o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn y lleoliad.
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn.
- sicrhau bod pob ffurflen berthnasol sy'n ymwneud â phlentyn yn cael ei harwyddo gan y person(au) sy'n gyfreithiol gyfrifol amdano.
- dilyn **Polisi Diogelu Plant** y lleoliad.

**Hylendid a Diogelwch Bwyd**

Bydd Caban y Faenol yn:

- sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfle i fynychu cwrs hyfforddi cydnabyddedig ar hylendid bwyd, e.e. Tystysgrif Hylendid Bwyd Lefel 2. Bydd y Rheolwr yn sicrhau bod y staff yn diweddaru eu hyfforddiant o leiaf bob 3 blynedd.
- sicrhau nad yw plant dan 5 oed yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain wrth fwyta, rhag ofn iddynt dagu.
- sicrhau bod darnau o fwyd e.e. mae ffrwythau'n cael eu torri'n ddarnau bach, rhag ofn i'r plant dagu.
- sicrhau bod bwyd ffres yn cael ei storio mewn oergell briodol.
- sicrhau bod bwyd yn yr ardal paratoi bwyd wedi'i orchuddio.
- sicrhau bod bwyd sydd wedi mynd heibio ei ddyddiad gwerthu yn cael ei waredu.
- defnyddio blychau sydd wedi'u hinswleiddio'n oeri i gario bwyd wrth fynd â phlant ar ymweliadau neu am ddiwrnod allan.

- cofrestru fel busnes gydag Adran Iechyd yr Amgylchedd leol i'w alluogi i weini byrbrydau (gweler gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd: www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/).
- diheintio ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer paratoi bwyd a'i weini'n rheolaidd i gydymffurfio â gofynion Iechyd yr Amgylchedd.
- cymryd camau ar unwaith ar unrhyw faterion diogelwch a hylendid bwyd sydd angen sylw, yn dilyn arolygiad gan Iechyd yr Amgylchedd.
- sicrhau bod yr holl staff yn gweithredu'r safonau hylendid uchaf posibl bob amser, gan gynnwys golchi dwylo'n drylwyr cyn paratoi a gweini bwyd.
- golchi a diheintio clytiau cegin yn rheolaidd a'u gadael i sychu cyn eu defnyddio eto.
- defnyddio tywelion cegin tafladwy ar gyfer sychu arwynebau gwaith a byrddau torri.
- sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar gyfer cael gwared ar wastraff bwyd, a darparu biniau gyda chaeadau sy'n hawdd eu glanhau, gan symud y gwastraff o'r lleoliad yn rheolaidd fel nad yw'n denu plâu.

**Polisïau Cysylltiedig**

Polisi Meddyginiaeth

Polisi Diogelu rhag yr Haul

Polisi Diogelu Plant

Polisi Cludo Plant

Polisi Cadw Plant o fewn y Safle / Plentyn Coll

Polisi Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol.

Polisi Newid Cewynnau

Polisi Di-fwg

**Gwybodaeth Bellach a Chysylltiadau Defnyddio**

Mae’r cyhoeddiadau a’r gwefannau canlynol yn darparu gwybodaeth ychwanegol ddefnyddiol:

Health and Safety Guidance for Early Years’ Settings and Child Care (HSG) 2009.

Food Standards Agency: www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/

Health and Safety Executive (HSE) http://www.hse.gov.uk

Public Health Wales: ‘Infection Prevention and Control for Childcare Settings (0-5 years), Nurseries, Child Minders and Playgroups. All Wales Guidance’. 2014. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Infection%20Prevention%20and%20Control%20for%20Childcare%20Settings%20Final%202014.pdf